
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

carmarthenshire.gov.wales

# Bathodyn Glas

## Nodiadau Cyfarwyddyd





V7. Gorffennaf 2023

SR-38875

# GALLWCH WNEUD CAIS AR-LEIN DRWY FYND I: GOV.UK/APPLY-BLUE-BADGE NEU DARLLENWCH YR ISOD YNGLŶN Â SUT I GYFLWYNO EICH FFURFLEN GAIS BAPUR

Gellir postio’r ffurflen wedi’i llenwi a’r dogfennau cefnogol (yn yr amlen a ddarparwyd) i’r cyfeiriad canlynol:-

Y Tîm Bathodynnau Glas
Yr Adran Cymunedau
Cyngor Sir Caerfyrddin
Caerfyrddin
SA31 1LE

Hefyd cewch fynd â’ch dogfennau gwreiddiol gyda chi fel prawf o bwy ydych i’r **Hwb** a byddant yn gallu gwneud copïau ohonynt a dilysu’r dogfennau fel y bo’r angen.

Os hoffech gyflwyno'r cais a/neu’r dogfennau yn un o'n **Hwb**, ffoniwch **01267 234567** i drefnu apwyntiad. Os nad yw’n bosib i chi gadw’r apwyntiad, ffoniwch i aildrefnu.

**Yr Hwb**
Cyngor Sir Caerfyrddin,
41 Stryd y Cei,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin
SA18 3BS

**Yr Hwb**
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Uned 1, Cerdded San Catherines,
Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin
SA31 1GA

**Yr Hwb**
Cyngor Sir Caerfyrddin,
36 Stryd Stepney,
Llanelli,
Sir Gaerfyrddin
SA15 3TR

Os ydych chi’n cwblhau’r ffurflen ar ran ymgeisydd dan 16 oed neu un sy’n methu cwblhau’r ffurflen ei hun, nodwch ei fanylion yn yr adrannau priodol a llofnodwch y ffurflen ar ei ran. Hefyd, nodwch eich perthynas â’r ymgeisydd ac, os yw’r ymgeisydd â nam meddyliol sylweddol a diffyg gallu meddyliol, cadarnhewch mai chi sy’n gyfrifol am sicrhau bod y bathodyn yn cael ei ddefnyddio’n gyfreithlon. Er enghraifft, efallai bod gennych gyfrifoldeb rhiant, hawliau Pŵer Atwrnai neu warcheidiaeth.

## Pa Adrannau o’r Ffurflen Gais ddylwn i eu cwblhau?

| **Dylai pob unigolyn gwblhau Adran 1 ac Adran 9 yn ogystal ag <u>UN</u> o’r adrannau perthnasol isod:** |
|---|
| • **ADRAN 2, RHAN A,** os ydych wedi’ch cofrestru’n ddall (â nam difrifol ar y golwg).<br>• **ADRAN 2, RHAN B,** os ydych yn derbyn Taliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP) (gweler y disgrifyddion ar y dudalen nesaf)<br>• **ADRAN 2, RHAN C,** os ydych yn derbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd Lwfans Byw i’r Anabl.<br>• **ADRAN 2, RHAN D,** os ydych yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel.<br>• **ADRAN 2, RHAN E,** os ydych yn derbyn tariff rhwng 1 a 8 Cynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a’r Adfyddinoedd.) |
| • **ADRAN 3** os oes gennych anabledd parhaol a sylweddol sy’n golygu na allwch gerdded neu eich bod prin yn gallu cerdded ac **<u>nad</u>** ydych wedi cwblhau **ADRAN 2** nac ateb **‘YDW’** yn unrhyw ran ohoni. |
| • **ADRAN 4** os ydych yn yrrwr â nam yn y ddwy fraich ac yn methu gweithredu, neu yn cael cryn anhawster i weithredu, pob math neu rai mathau o offer parcio ar y stryd, ac nid ydych wedi cwblhau **ADRAN 2 <u>nac</u>** wedi ateb **'YDW'** i unrhyw ran ohoni. |
| • **ADRAN 5** os yw’r sawl sy’n ymgeisio’n blentyn dan 3 oed sy’n gorfod cael cyfarpar meddygol swmpus wrth law neu sydd angen bod ger cerbyd bob amser, naill ai i gael triniaeth, neu i’w gludo i rywle lle gellir rhoi triniaeth iddo. |
| • **ADRAN 6** os oes gennych salwch angheuol ac **<u>nad</u>** ydych wedi cwblhau **ADRAN 2** nac ateb **‘YDW’** yn unrhyw ran ohoni |
| • **ADRAN 7** os oes gan yr ymgeisydd nam gwybyddol ac mae’n cael anhawster i gynllunio a dilyn teithiau i’r graddau bod angen goruchwyliaeth barhaus arno/arni ac **<u>nid</u>** yw wedi ateb ‘**YDW’** yn unrhyw ran o **ADRAN 2.** |
| • **ADRAN 8** os nad yw’r ymgeisydd yn gallu cerdded neu os yw’n cael anhawster mawr i gerdded, ac os oes ganddo/ganddi anabledd sylweddol **<u>dros dro</u>** sy’n debygol o bara am y 12 mis nesaf. |

## ADRAN 1

### RHAN A – I'W CHWBLHAU GAN BOB YMGEISYDD – GWYBODAETH AM YR YMGEISYDD

Dylai'r adran hon gael ei chwblhau gan bawb sy'n gwneud cais am Fathodyn Glas. Dylid cwblhau pob maes. Gellir cynnwys manylion cyswllt ar gyfer enw'r prif bwynt cyswllt.

Os ydych chi'n gwneud cais am Fathodyn Glas ar ran rhywun dan 16 oed, bydd angen i chi ddarparu ei Rif Cofrestru Plentyn. Gellir dod o hyd i hwn ar ddogfennau Budd-dal Plant.

Bydd angen i'r rhai sy'n gwneud cais am Fathodyn Glas oherwydd nam ar eu breichiau nodi rhif eu trwydded yrru gan y byddant ond yn gymwys i ddefnyddio'r bathodyn pan fyddant yn gyrru'r cerbyd.

### RHAN B – PRAWF O'CH CYFEIRIAD

Ticiwch y caniatâd sydd fwyaf priodol i chi. Os nad ydych yn ticio blwch bydd angen i ni gysylltu â chi a defnyddio dull arall o gadarnhau eich cyfeiriad a bydd hyn yn achosi oedi wrth brosesu'ch cais.

Er mwyn ticio'r dewis sy'n rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio'r gronfa ddata Gofal Cymdeithasol, mae'n rhaid ichi fod yn derbyn gwasanaethau gan yr Adran Cymunedau neu fod wedi derbyn asesiad o'ch anghenion gofal yn y mis cyn cyflwyno'r cais. Os ydych chi'n cwblhau'r ffurflen gais ar ran rhywun dan 16 oed, dylech roi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio cofnodion ysgol i gadarnhau lle mae'r ymgeisydd yn byw. Mae'n rhaid nodi enw'r ysgol neu'r sefydliad addysg.

### RHAN C – PRAWF O BWY YDYCH CHI:

**Os ydych wedi cael Bathodyn Glas yn flaenorol gan Gyngor Sir Caerfyrddin nid oes angen inni ailgadarnhau pwy ydych. Os ydych yn gwneud cais i Gyngor Sir Caerfyrddin am y tro cyntaf mae angen inni gadarnhau pwy ydych. Llenwch un o'r blychau canlynol.**

- Os oes gennych gerdyn teithio rhatach ar gyfer bysiau o Sir Gaerfyrddin nid oes yn rhaid ichi gyflwyno'r cerdyn - nodwch y rhif sydd ar y cerdyn bws yn y blwch a ddarperir

Os nad oes gennych gerdyn bws o'r fath, cyflwynwch gopi ardystiedig o **UN** o'r canlynol fel prawf o bwy ydych chi:

- Tystysgrif geni/Tystysgrif mabwysiadu
- Tystysgrif Partneriaeth Sifil/Diddymu
- Tystysgrif Priodas/Ysgariad
- Pasbort dilys, sydd heb ddod i ben (y dudalen manylion personol)
- Trwydded yrru ddilys, sydd heb ddod i ben (cerdyn llun neu gopi papur)

**RHAN C – PRAWF O BWY YDYCH CHI:**

Llungopi wedi'i ardystio yw llungopi o ddogfen sydd wedi'i dilysu i fod yn wir gan unigolyn, nad yw'n bartner i chi nac yn aelod o'r teulu, sydd wedi'ch adnabod am o leiaf ddwy flynedd ac sydd dros 18 oed.

Dylai'r unigolyn sy'n ardystio'r dogfennau lofnodi'r llungopi a chynnwys y testun **"Mae'r copi hwn yn ddarlun gwir o'r gwreiddiol a welwyd gennyf"** wrth ymyl ei lofnod. Dylai hefyd brintio'i enw a'i alwedigaeth wrth ymyl y wybodaeth hon. Hefyd gall y staff yn y **Hwb** wirio unrhyw ddogfennau gwreiddiol. Sylwer, os byddwch yn anfon dogfennau gwreiddiol gyda'ch cais yn y post, ni ellir dal yr awdurdod yn gyfrifol am unrhyw ddogfennau gwreiddiol a gollir.

**Dyma enghreifftiau o'r mathau o bobl a fyddai'n addas i ardystio a gwirio dogfennau adnabod:**

| | |
|---|---|
| Cyfrifydd | Nyrs (RGN ac RMN) |
| Gweithiwr banc/cymdeithas adeiladu | Swyddog yn y lluoedd arfog |
| Bargyfreithiwr | Optegydd |
| Cynghorydd (Lleol neu Sir) | Fferyllydd |
| Gwas Sifil | Heddwas |
| Deintydd | Gweithiwr Cymdeithasol |
| Swyddog y Gwasanaeth Tân | Cyfreithiwr |
| Ynad Heddwch | Syrfëwr |
| Daliwr trwydded tŷ tafarn | Athro, Darlithydd |
| Swyddog Llywodraeth Leol | Swyddog Undeb Llafur |

Os hoffech gyflwyno eich cais / dogfennau yn unrhyw un o'r Hwb, ffoniwch **01267 234567** i wneud apwyntiad. Os nad yw'n bosibl i chi gadw at yr apwyntiad, a fyddech cystal â ffonio i aildrefnu.

**Ni ellir derbyn llungopi heb ei lofnodi a'i ardystio a bydd hyn yn achosi oedi o ran prosesu eich cais.**

**RHAN D - LLUN**

**A fyddech cystal ag amgáu ffotograff lliw diweddar (tebyg i lun pasbort) o'r ymgeisydd.**

Gofalwch fod enw a dyddiad geni'r ymgeisydd ar gefn y llun. Mae'n rhaid i'r llun wahaniaethu'n glir rhwng y wyneb a'r cefndir a bod:

- mewn lliw;
- 45 milimetr o hyd a 35 milimetr o led (maint pasbort);
- wedi'i dynnu o fewn mis i ddyddiad y cais;
- yn erbyn cefndir llwyd golau neu hufen;
- heb ei ddifrodi;
- heb "lygaid coch", cysgodion nac adlewyrchiad neu lacharedd sbectol;
- yn llun o ben cyfan yr unigolyn (heb fod unrhyw berson arall yn y golwg nac unrhyw beth yn gorchuddio'r pen oni bai fod hwnnw'n cael ei wisgo oherwydd cred grefyddol neu am resymau meddygol);
- yn wynebu ymlaen;
- heb ddim yn cuddio'r wyneb;
- yn edrych yn syth i'r camera;
- gyda mynegiant niwtral a'r geg ar gau;
- gyda'r llygaid ar agor ac i'w gweld yn glir (heb sbectol haul neu sbectol ag arlliw a heb wallt neu sbectol yn cuddio'r llygaid);
- mewn ffocws pendant ac yn glir;
- yn dangos tebygrwydd gwirioneddol, heb ei ddiwygio.

Os na allwch amgáu ffotograff lliw diweddar (tebyg i lun pasbort), gallwch drefnu apwyntiad yn un o'n canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid drwy ffonio **01267 234567** lle gellir tynnu llun ohonoch. Ni chodir tâl am dynnu'r llun hwn ar hyn o bryd.

**RHAN E – BATHODYN YN LLE HEN UN**

Ni chodir tâl ar ddeiliad Bathodyn Glas am fathodyn yn lle un sydd wedi'i ddwyn lle darperir cyfeirnod trosedd yr heddlu. Os yw eich Bathodyn Glas wedi'i golli, dylech roi gwybod i Gyngor Sir Caerfyrddin yn unrhyw un o'r cyfeiriadau a ddangosir ar dudalen 2 neu ffonio Galw Sir Gâr ar **01267 234567.**

Fodd bynnag, ni chodir tâl ar hyn o bryd am fathodyn yn lle hen un os yw wedi'i golli neu wedi'i ddifrodi i'r fath raddau fel na all y bobl fydd yn gwirio'r bathodyn ei ddarllen pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer parcio a dibenion eraill. A fyddech cystal â chadarnhau hyn pan fyddwch yn gwneud y cais.

## ADRAN 2

**MAE'R ADRAN HON I GAEL EI LLENWI GAN YMGEISWYR A ALL FOD YN GYMWYS I GAEL BATHODYN GLAS YN AWTOMATIG HEB ASESIAD PELLACH.**

Byddwch yn gymwys i gael bathodyn yn awtomatig os ydych dros dair oed, yn gallu bodloni gwiriadau preswylio a hunaniaeth, ac yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf cymhwysedd yn Adran 2. Bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau priodol i brofi cymhwysedd o dan un o'r meini prawf. Mae prawf eich bod yn derbyn lwfans yn un enghraifft y gallwch ei defnyddio i brofi'ch cymhwysedd. Bydd unrhyw ddogfennau a anfonir fel prawf o gymhwysedd yn cael eu dychwelyd i'r ymgeisydd cyn gynted â phosibl, pan fydd yr awdurdod lleol wedi gorffen â nhw.

### RHAN A – POBL Â NAM DIFRIFOL AR Y GOLWG

Cwblhewch yr adran hon os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall (nam difrifol ar y golwg). Gofynnir ichi nodi enw'r awdurdod lleol rydych wedi cofrestru gydag ef. Mewn llawer achos, byddwch wedi'ch cofrestru gyda'r un awdurdod â'r un rydych yn cyflwyno cais am fathodyn iddo. Os nad felly y mae, bydd awdurdodau lleol yn cadarnhau gyda'r awdurdod a nodwyd gennych fel yr un rydych wedi'ch cofrestru gydag ef.

Y dogfennau ffurfiol cyfredol sy'n ofynnol er mwyn cofrestru'n ddall (nam difrifol ar y golwg) yw Tystysgrif Dallineb neu Olwg Diffygiol (BP1 (3R)) neu Dystysgrif Nam ar y Golwg (CVI), wedi'i llofnodi gan Offthalmolegydd Ymgynghorol, sy'n nodi eich bod yn ddall (nam difrifol ar y golwg). Mae adroddiadau/tystysgrifau cyfwerth yn dderbyniol hefyd, fodd bynnag mae cofrestru'n wirfoddol.

**RHAN B – TALIADAU ANNIBYNIAETH BERSONOL**

Er mwyn bod yn gymwys yn awtomatig o dan y categori hwn, mae'n rhaid ichi gyflwyno datganiad sy'n dangos bod gennych hawl i Daliad Annibyniaeth Bersonol, wedi'i ddyddio yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rhif ffôn: **0800 121 4433**

Os nad yw'r llythyr hwn yn ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf, RHAID ichi hefyd gynnwys eich llythyr blynyddol sy'n ddyddiedig o fewn y 12 mis diwethaf.

**Disgrifyddion Elfen Symudedd y Taliadau Annibyniaeth Bersonol**

Er mwyn bod yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn awtomatig, rhaid i chi gael sgôr o 12 o ran "Cynllunio a Dilyn Teithiau" **neu** 8 neu fwy o ran "Symud o Gwmpas".

Mae'r llinell gymorth hon ar agor o 8.00am hyd at 6.00pm o ddydd Llun i ddydd Gwener a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a chymorth i'ch helpu i ddeall Taliadau Annibyniaeth Bersonol ar-lein: **www.gov.uk/pip**

Bydd Bathodynnau Glas a roddir dan yr amgylchiadau hyn yn ddilys am gyfnod y taliad annibyniaeth bersonol neu am dair blynedd, pa un bynnag yw'r byrraf.

## Disgrifyddion y Taliadau Annibyniaeth Bersonol

**Er mwyn bod yn gymwys i gael bathodyn glas yn awtomatig, rhaid ichi gael y pwyntiau canlynol**

**Cynllunio a dilyn teithiau – angen 12 o bwyntiau**

| **Disgrifydd** | |
|---|---|
| **F** | Yn methu â dilyn llwybr taith gyfarwydd heb berson arall, ci cymorth, neu gymorth cyfeiriadedd. |

## Neu

**Symud o Gwmpas - Angen 8 o bwyntiau neu fwy**

| **Disgrifydd** | |
|---|---|
| **C** | Yn gallu sefyll ac yna symud heb gymorth am fwy nag 20 metr, ond dim mwy na 50 metr. |
| **D** | Yn gallu sefyll ac yna symud drwy ddefnyddio cymorth neu offer am fwy na 20 metr, ond dim mwy na 50 metr. |
| **E** | Yn gallu sefyll ac yna symud mwy nag un metr ond dim mwy nag 20 metr. |
| **F** | Yn methu sefyll neu symud mwy nag un metr. |

**RHAN C - CYFRADD UWCH ELFEN SYMUDEDD LWFANS BYW I'R ANABL**

Cwblhewch yr adran hon os ydych chi'n derbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA). Byddwch wedi cael llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn eich hysbysu o'r dyfarniad. Byddwch hefyd wedi cael llythyr codi cyfraddau blynyddol sy'n nodi'ch hawl. Os yw'r llythyr dyfarnu wedi'i ddyddio yn ystod y 12 mis diwethaf, gallwch ddefnyddio'r llythyr codi cyfraddau hwn fel tystiolaeth eich bod yn derbyn HRMCDLA. Os ydych chi wedi colli'ch llythyr sy'n dangos bod hawl gennych i HRMCDLA, cysylltwch â'r Adran Gwaith a Phensiynau:

Rhif ffôn: **0800 121 4600**

Mae'r llinell gymorth hon ar agor rhwng 8.00am a 6.00pm dydd Llun i ddydd Gwener, a gellir cael mwy o fanylion ar-lein:
**https://www.gov.uk/dla-disability-living-allowance-benefit**

Bydd Bathodynnau Glas a roddir dan yr amgylchiadau hyn yn ddilys am gyfnod y dyfarniad HRMCDLA neu am dair blynedd, pa un bynnag yw'r byrraf.

**RHAN D – ATODIAD SYMUDEDD PENSIYNWYR RHYFEL**

Cwblhewch yr adran hon os ydych chi'n derbyn Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel (WPMS). Dylai bod gennych lythyr swyddogol gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn dangos eich bod yn derbyn y grant. Rhaid i chi gyflwyno'r llythyr gwreiddiol fel tystiolaeth o'ch hawl. Os ydych chi wedi colli'r llythyr hwn, gallwch gysylltu â'r Asiantaeth ar y llinell ymholiadau rhadffôn: **0800 169 2277**

**RHAN E – BUDD-DAL Y LLUOEDD ARFOG A'R ADFYDDINOEDD**

Cwblhewch yr adran hon os ydych chi'n cael budd-dal untro ar dariff 1-8 (cynhwysol) Cynllun (Iawndal) y Lluoedd Arfog a'r Adfyddinoedd a bod Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr wedi'ch asesu ac yn ardystio bod gennych anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu nad ydych yn gallu cerdded neu'ch bod yn cael anhawster mawr i gerdded.

Byddwch wedi cael llythyr gan Asiantaeth y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn cadarnhau lefel eich dyfarniad ac yn cadarnhau eich bod wedi'ch asesu'n berson ag anabledd parhaol a sylweddol sy'n golygu nad ydych yn gallu cerdded neu'ch bod yn cael anhawster mawr i gerdded. Rhaid i chi gyflwyno'r llythyr gwreiddiol fel tystiolaeth o'ch hawl.

Os ydych chi wedi colli'r llythyr hwn, gallwch gysylltu â'r Asiantaeth ar y llinell ymholiadau rhadffôn: **0800 169 2277.** Os ydych chi wedi ateb 'Ydw' i unrhyw un o'r cwestiynau yn yr adran hon, bydd angen ichi lenwi Adran 9 i gwblhau eich cais.

## ADRAN 3

**ADRAN I’W LLENWI GAN YMGEISWYR NAD YDYNT YN BODLONI’R MEINI PRAWF CYMHWYSEDD AWTOMATIG OND SYDD AG ANAWSTERAU CERDDED**

Os yw ymgeiswyr yn cwblhau’r adran hon (Adran 3) mae’n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol i gael rhagor o wybodaeth ac/neu yn gofyn ichi ddod i asesiad symudedd i benderfynu a ydych yn gymwys i gael bathodyn glas.  Dylech gwblhau Adran 3 os nad yw’r cwestiynau yn Adran 2 yn berthnasol i chi. Mae nam parhaol yn un sy’n debygol o bara am weddill eich oes. Nid yw cyflyrau meddygol fel asthma, clefyd Crohn/cyflyrau anymataliaeth ac Enseffalomyelitis Myalgig (ME) yn ddigon yn eu hunain i’ch gwneud chi’n gymwys i gael bathodyn. Gall pobl â’r cyflyrau hyn fod yn gymwys dan y maen prawf hwn, ond dim ond os na allant gerdded neu os ydynt yn cael anhawster mawr i gerdded, yn ogystal â’r cyflyrau hyn.

I fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas mae’n rhaid i chi fod â nam parhaol a sylweddol sy’n golygu nad ydych yn gallu cerdded neu’ch bod yn cael anhawster mawr i gerdded.

Ystyr anhawster mawr i gerdded yw eich bod yn methu cerdded yn bell heb brofi anhawster difrifol, fel;

- poen difrifol
- bod yn fyr o wynt
- cyflymder cerdded
- am faint o amser y gall person gerdded
- sut mae’r person yn cerdded (osgo, rhythm, cydsymudiad, cydbwysedd, camau)
- defnyddio cymhorthion cerdded
- gallu cerdded yn yr awyr agored, yn cynnwys gwahanol fathau o dirwedd
- a yw’r ymdrech i gerdded yn peryglu bywyd y person, yn sgil salwch a chyflyrau iechyd eraill.

Bydd darparu tystiolaeth i gefnogi’ch cais yn ein helpu i brosesu eich cais. Gall y dystiolaeth fod ar gael gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel:-

- meddygon ymgynghorol,
- ffisiotherapyddion,
- clinigau poen,
- nyrs seiciatrig gymunedol,
- arbenigwr ysbytai,
- therapyddion galwedigaethol,
- nyrs ardal,
- gwasanaethau cymdeithasol.

Nid yw’r rhestr yn cynnwys pob enghraifft, ond os ydych yn darparu manylion eich darparwr gwasanaethau mae’n bosibl y gall yr awdurdod lleol gysylltu â nhw i wirio eich cais.

**Cofiwch amgáu'r presgripsiwn, y llythyr Lwfans Gweini a llythyr ategol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n disgrifio pa mor ddifrifol yw eich anawsterau symudedd.**

## ADRAN 4

**MAE’R ADRAN HON I’W LLENWI GAN YMGEISWYR SYDD Â NAM AR Y DDWY FRAICH – BYDD ANGEN ASESIAD PELLACH ARNYNT OHERWYDD NAD YDYNT YN GYMWYS YN AWTOMATIG**

Ymgeiswyr sydd â nam difrifol ar y ddwy fraich ddylai gwblhau Adran 4. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn gyrru cerbyd, bod gennych nam difrifol ar y ddwy fraich a’ch bod yn methu defnyddio unrhyw fath, neu rai mathau o gyfarpar parcio ar y stryd neu beiriannau parcio talu ac arddangos, neu’ch bod chi’n cael anhawster mawr i’w defnyddio. Bydd angen bodloni’r tri amod isod er mwyn cael bathodyn.

Yr amodau mae’n rhaid eu bodloni:

- Bod gennych nam difrifol ar y ddwy fraich
- Eich bod yn yrrwr cerbyd
- Eich bod yn cael anhawster mawr i ddefnyddio unrhyw fath, neu rai mathau o gyfarpar parcio ar y stryd neu beiriannau parcio talu ac arddangos

Bydd angen ichi amgáu llungopi o'ch manylion yswiriant a'ch trwydded yrru. Dylai trwydded yrru'r ymgeisydd gynnwys un o'r codau canlynol:

40 - Llywio wedi'i addasu

79 - Wedi'i gyfyngu i gerbydau sy'n cydymffurfio â'r manylebau a nodir mewn cromfachau.

Gall awdurdodau lleol wneud trefniadau i gwrdd ag ymgeiswyr sy’n gwneud cais o dan y categori hwn.

## ADRAN 5

**DYLECH GWBLHAU'R ADRAN HON OS YDYCH YN GWNEUD CAIS AR RAN PLENTYN DAN DAIR OED**

Dylid cwblhau Adran 5 ar ran:

- plant dan dair oed sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod rhaid iddynt gludo cyfarpar meddygol swmpus gyda nhw bob amser, sy'n anodd iawn ei gario o gwmpas; neu
- plant dan dair oed sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod angen iddynt fod yn agos i gerbyd drwy'r amser, naill ai i gael triniaeth, neu er mwyn eu cludo i gael triniaeth yn rhywle arall.

Rhaid i riant neu warcheidwad wneud cais ar ran plentyn o dan dair oed.

Gallai'r rhestr o gyfarpar meddygol swmpus y cyfeiriwyd atynt uchod gynnwys:

- peiriannau anadlu;
- peiriannau sugno;
- pympiau bwydo;
- cyfarpar parenterol;
- gyrwyr chwistrelli;
- cyfarpar darparu ocsigen;
- cyfarpar monitro dirlawnder ocsigen parhaus;
- castiau a chyfarpar meddygol cysylltiedig ar gyfer cywiro dysplasia'r glun.

Gall awdurdod lleol roi bathodyn os oes angen y cyfarpar o hyd ac na ellir ei gario heb gryn anhawster.

Dyma rai enghreifftiau o gyflyrau meddygol ansefydlog iawn sy'n golygu y gallai'r plant sy'n dioddef ohonynt fod angen mynediad brys i gludiant i'w hebrwng i'r ysbyty neu adref:

- traceostomi;
- epilepsi/ffitiau difrifol;
- diabetes ansefydlog iawn;
- afiechyd angheuol sy'n rhwystro plant rhag treulio mwy na chyfnodau byr y tu allan, plant felly sydd angen cael ffordd gyflym o gyrraedd adref

Nodwch y gellir ychwanegu at y rhestri uchod er mwyn caniatáu ar gyfer datblygiadau newydd mewn technoleg a chyfarpar triniaethau.

Mae'n rhaid i chi amgáu llythyr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi bod yn gysylltiedig â thriniaeth eich plentyn (er enghraifft, eich pediatregydd), gan roi manylion cyflwr meddygol eich plentyn a'r math o gyfarpar meddygol sydd ei angen, a rhoi manylion cyswllt y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Dylai'r llythyr nodi cyfeiriad cartref eich plentyn i roi prawf o ble mae'n byw i'ch awdurdod lleol. Cofiwch hefyd ddarparu enw a chyfeiriad eich meddyg teulu. Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â'r naill neu'r llall fel rhan o'r cais.

## ADRAN 6

**MAE'R ADRAN HON I'W CHWBLHAU GAN YMGEISWYR SYDD Â SALWCH ANGHEUOL**

Mae'r adran hon ar gyfer pobl sy'n ymgeisio am Fathodyn Glas oherwydd bod ganddynt salwch angheuol sy'n cyfyngu ar eu symudedd. Mewn achosion lle mae disgwyliad oes wedi'i gyfyngu i chwe mis, mae gan yr awdurdod lleol hawl i roi Bathodyn Glas i unigolyn er mwyn gwneud ei wythnosau olaf yn haws. Bydd y bathodyn yn para am dair blynedd fel arfer oni bai bod gan yr unigolyn ddyfarniad HRMCDLA hefyd. Mewn achos o'r fath, cyflwynir y bathodyn yn unol â llythyr y dyfarniad.  Byddwch yn gymwys i gael bathodyn os ydych yn darparu'r ddogfen DS1500/SR1 i gefnogi eich cais.

Os nad yw'r ddogfen DS 1500/SR1 gennych, rhowch enw eich meddyg teulu ac mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu ag ef/hi i'n helpu i benderfynu a ydych yn gymwys i gael bathodyn glas.

Amgaewch gopi o ddogfennau gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill i ategu eich cais os oes rhai gennych. Gall hyn arbed i ni orfod cysylltu â'ch meddyg teulu a byddwn yn gallu prosesu eich cais yn gyflymach.

Mae'n bosibl y gall y gweithwyr iechyd proffesiynol canlynol ddarparu tystiolaeth ategol:

- meddygon ymgynghorol,
- arbenigwr ysbytai,
- ffisiotherapyddion,
- clinigau poen,
- nyrs ardal,
- nyrs seiciatrig gymunedol,
- gwasanaethau cymdeithasol
- gweithiwr hosbis

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob enghraifft.

**Os byddwch yn gwneud cais o dan y categori hwn, nid oes angen llun.**

## ADRAN 7

**MAE'R ADRAN HON I'W CHWBLHAU GAN YMGEISWYR SYDD Â NAM GWYBYDDOL AC SY'N CAEL ANHAWSTER I GYNLLUNIO A DILYN TEITHIAU I'R GRADDAU BOD ANGEN GORUCHWYLIAETH BARHAUS ARNYNT NEU SY'N DERBYN CYFRADD UWCH ELFEN OFAL Y LWFANS BYW I'R ANABL (HRCCDLA)**

Dylai ymgeiswyr gwblhau Adran 7:

- os oes nam gwybyddol arnynt; ac
- os ydynt yn methu cynllunio neu ddilyn taith i'r graddau bod angen goruchwyliaeth barhaus arnynt, neu os ydynt yn derbyn Cyfradd Uwch Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl.

Os ydych yn cael Cyfradd Uwch Elfen Ofal y Lwfans Byw i'r Anabl, rhaid ichi amgáu'r llythyr sy'n nodi bod hawl gennych ei chael, ac mae'n rhaid bod y llythyr yn dwyn dyddiad o fewn y 12 mis diwethaf.

Os nad ydych yn gallu darparu'r wybodaeth hon, ffoniwch yr Adran Gwaith a Phensiynau ar **0800 121 4600** i ofyn am gopi cyn cyflwyno eich cais.

Rhif ffôn: : **0800 121 4600**
Mae'r llinell gymorth hon ar agor rhwng 8.00am a 6.00pm dydd Llun i ddydd Gwener, a gellir cael mwy o fanylion ar-lein yn:
**https://www.gov.uk/financial-help-disabled**

**Efallai y bydd yn rhaid ichi gwblhau ffurflen ychwanegol.**

Bydd Bathodynnau Glas a roddir dan yr amgylchiadau hyn yn cael eu rhoi am gyfnod y dyfarniad HRCCDLA neu am dair blynedd, pa un bynnag yw'r byrraf.

Gall y rhestr o gyflyrau meddygol sy'n berthnasol i'r adran hon gynnwys y canlynol:

- Awtistiaeth
- Clefyd Alzheimer neu Ddementia
- Goroeswyr Strôc
- Anableddau Dysgu
- Iechyd Meddwl
- Anafiadau Pen

Nodwch y gellir ychwanegu at y rhestr uchod. Nid yw'r meini prawf wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar gael diagnosis ond mae'n rhaid i'r ymgeiswyr fodloni'r meini prawf diogelwch (mewn print trwm uchod).

Hefyd, gall ymgeiswyr gyflwyno cais o dan y categori hwn os nad ydynt yn gymwys i gael Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) oherwydd eu hoed neu os ydynt yn dewis peidio â gwneud cais am fudd-dal.

Cofiwch gynnwys llythyr diagnosis i gefnogi'ch cais.

## ADRAN 8

**MAE'R ADRAN HON I'W CHWBLHAU GAN YMGEISWYR SYDD AG ANAWSTERAU CERDDED DROS DRO GAN NAD YDYNT YN GALLU CERDDED, NEU'N CAEL ANHAWSTER MAWR I GERDDED, AC SYDD AG ANABLEDD SYLWEDDOL DROS DRO SY'N DEBYGOL O BARHAU AM Y 12 MIS NESAF.**

Os bydd ymgeiswyr yn cwblhau'r Adran hon (Adran 8) o'r ffurflen, yna gall yr Awdurdod Lleol ddefnyddio Pecyn Cymorth Gwirio yr Awdurdod Lleol ar gyfer Bathodyn Glas, gysylltu â Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol neu'ch cyfeirio at wasanaeth cynghori annibynnol i gael eich asesu am ragor o wybodaeth, er mwyn penderfynu a ydych yn gymwys i gael Bathodyn Glas.

Er mwyn bod yn gymwys i gael Bathodyn Glas yn yr Adran hon, mae'n rhaid eich bod ag anabledd sylweddol dros dro sy'n golygu eich bod yn methu cerdded neu'n cael anhawster mawr i gerdded.

Bydd o gymorth wrth brosesu eich cais os byddwch yn darparu tystiolaeth i gefnogi eich cais, gallai'r dystiolaeth fod ar gael gan weithwyr iechyd proffesiynol megis:

- meddygon ymgynghorol,
- arbenigwr ysbytai,
- ffisiotherapyddion,
- therapyddion galwedigaethol
- clinigau poen,
- nyrs ardal,
- nyrs seiciatrig gymunedol,
- gwasanaethau cymdeithasol
- nyrsys Macmillan neu eraill sy'n ymwneud â gofal cleifion

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob enghraifft ond os byddwch yn darparu manylion eich darparwr gwasanaeth mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn gallu cysylltu â nhw i wirio eich cais.

Amgaewch unrhyw lythrau meddygol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol i gefnogi eich cais am fathodyn glas dros dro.

## ADRAN 9

### ADRAN I'W CHWBLHAU GAN BOB YMGEISYDD - DATGANIADAU A LLOFNODION

Trwy lofnodi Adran 9 rydych chi'n rhoi caniatâd i'r Awdurdod Lleol rannu'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi â gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol proffesiynol ac asiantaethau eraill ac i'r gweithwyr proffesiynol a'r asiantaethau hynny ryddhau gwybodaeth i'w defnyddio i benderfynu a ydych yn gymwys i gael bathodyn glas. Hefyd, bydd Tîm y Bathodynnau Glas yn cysylltu ag adrannau eraill y Cyngor (h.y. y Dreth Gyngor, y Gofrestr Etholiadol) i ddilysu prawf o'ch cyfeiriad fel yr amlinellwyd yn ADRAN 1 RHAN B.

Rhaid i bob ymgeisydd lofnodi a dyddio'r ffurflen cyn ei chyflwyno.

Gall awdurdod lleol wrthod rhoi bathodyn os yw'n credu bod yr ymgeisydd yn gwneud cais anwir neu os yw'n credu y byddai'r bathodyn yn cael ei ddefnyddio gan rywun arall heblaw'r person a enwir fel y sawl sydd i'w ddefnyddio.

Os yw eich cais am fathodyn yn llwyddiannus, byddwch chi'n derbyn copi o'r daflen "Cynllun y Bathodyn Glas – Hawliau a Chyfrifoldebau yng Nghymru" gyda'r bathodyn. Mae'r daflen hon yn egluro rheolau'r Cynllun a sut y dylech ddefnyddio'r bathodyn yn briodol.

Fel arfer, rhoddir Bathodynnau Glas am dair blynedd ond bydd rhai bathodynnau'n para am gyfnod llai a bydd angen ichi ddychwelyd eich bathodyn os yw eich cyflwr yn gwella ac os nad oes ei angen bellach. Neu nad ydynt bellach yn gymwys ar gyfer y bathodyn. Os ydych am barhau i fod yn rhan o'r cynllun bydd angen ichi wneud cais am fathodyn newydd ychydig cyn i'ch bathodyn presennol ddod i ben.

**Rhoddir bathodynnau glas dros dro am gyfnod o 12 mis.**

Pan na fydd angen bathodyn glas mwyach oherwydd profedigaeth bydd y gwasanaeth 'Dywedwch Wrthym Unwaith' a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn eich atgoffa fod angen dychwelyd y bathodyn.

I gael rhagor o gyngor neu help, cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol ar **01267 234567.**

**RHESTR WIRIO O'R DOGFENNAU SYDD I'W HAMGÁU.**

**EWCH I DUDALEN 25 A 26 Y FFURFLEN GAIS.**